Bitesize

# Achosion a natur troseddau

Croeso i fyd tywyll, trychinebus trosedd a chosb.

Sut mae trosedd wedi newid dros y canrifoedd? A pha effaith mae agweddau, economeg, a thechnoleg wedi eu cael? Dewch i weld…

Yn gynta’ y Tuduriaid, oedd – i fod yn onest – yn griw digon amheus.

Bryd hynny, roedd gan bobl dlawd ddigonedd o amser sbar, felly roedd hi’n gyffredin iddyn nhw grwydro’r wlad heb waith ac heb gartre.

Ac aeth pethau’n waeth oherwydd gwrthdaro crefyddol.

Penderfynodd y Frenhines Mari – neu Mari Waedlyd – fod Protestaniaid yn troseddu yn erbyn Duw. Felly, llosgodd hi 280 ohonyn nhw yn ystod pum mlynedd o deyrnasu.

Mae hyn yn dangos sut gall cyfuniad o ideoleg ac eithafiaeth newid beth sy’n cael ei diffinio yn drosedd.

O’r 17eg i’r 18fed ganrif, roedd tlodi’n parhau i effeithio’n fawr ar drosedd.

Roedd y slymiau dinesig yn dal i dyfu, ond roedd gwaith yn brin a threthi’n uchel. Yr ateb i rai oedd smyglio, lladrata a mygio.

Roedd datblygiadau mewn technoleg yn ddylanwadol hefyd. Arweiniodd peiriannau gwell at ffyrdd gwell, a’r ffyrdd gwell at fath newydd o droseddwr – y lleidr pen ffordd.

Erbyn y chwyldro diwydiannol, roedd peiriannau’n cymryd swyddi pobl.

Dechreuodd pobl brotestio ar draws Prydain, gan arwain at wrthdaro treisgar gyda’r awdurdodau, oedd yn honni bod protestiadau’n anghyfreithlon. Adeg Terfysg y Ludiaid yn 1811, cafodd peiriannau eu dinistrio gan weithwyr tecstilau oedd yn ddi-waith.

Felly, fel crwydriaid yr 16eg ganrif, a lladron yr 17eg ganrif, cafodd pobl yn y Brydain ddiwydiannol eu gwthio i droseddu o ganlyniad i dlodi a digartrefedd.

Ond roedd pethau ‘run mor wael yng nghefn gwlad.

Roedd anrhefn amaethyddol yn gyrru pobl o’u pentrefi oherwydd pwysau economeg a thlodi. Mae Terfysg Beca yn enghraifft o’r aflonyddwch hwn.

Ymosodiadau ar dollbyrth oedd rhain i ddechrau, ond tlodi cyffredinol yng nghefn gwlad oedd prif achos yr anghydfod mae’n debyg.


© Hawlfraint BBC

Erbyn yr 20fed ganrif, newidiodd technoleg natur trosedd am byth.

Diolch i ddulliau cyfathrebu gwell – fel y ffôn – roedd troseddwyr nawr yn gallu sgwrsio’n hawdd a chreu cynlluniau cyfrwys mewn chwinciad.

A gyda thrafnidiaeth well, fel trenau a cheir, roedd hi’n haws i droseddwyr deithio o le i le, ac osgoi’r heddlu.

Ceir yn arbennig oedd i’w beio am droseddau newydd sbon – fel yfed a gyrru, lladrata, damweiniau ffyrdd a chyrn ceir swynol?

Erbyn heddiw, mae technoleg yn rhoi’r cyfle i bobl droseddu mewn ffyrdd na fyddai’r Tuduriaid erioed wedi gallu eu dychmygu.

Mae’r byd ar-lein yn golygu bod rhai pobl yn helpu pobl i ymddwyn yn amheus – fel y we dywyll, twyll adnabyddiaeth a lawrlwytho anghyfreithlon.

Mae smyglwyr wedi deud ‘hwyl fawr’ wrth rym a halen ac ‘helo’ i rifau pin a data.

Heddiw mae technoleg ac agweddau’n gorgyffwrdd. Mae grwpiau crefyddol eithafol, fel sefydliadau terfysgol, yn gallu trefnu a recriwtio ar-lein.

Felly, does dim ots pa ganrif yw hi, mae troseddwyr yn ymateb i’r byd o’u cwmpas.

Mae tlodi, diwethdra a chrefydd yn gallu gwthio pobl i droseddu, a thechnoleg – fel trafnidiaeth a chyfathrebu – yn hwyluso’r broses.

Wrth i natur trosedd newid, mae dulliau ymladd trosedd hefyd wedi newid. Rhaid i’r heddlu fod yn barod am unrhywbeth – unrhywbryd.


© Hawlfraint BBC